cyllid myfyrwyr cymru
student finance wales

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

# Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) Tystiolaeth o Statws Annibyniaeth

Bydd angen i chi anfon tystiolaeth i brofi'ch statws presennol. A dylech ddefnyddio'r wybodaeth isod er mwyn darganfod yr hyn y bydd angen i chi ei anfon.

Dylech anfon **llungopïau** o'ch tystiolaeth oni bai y nodir fel arall. Byddwn yn dychwelyd unrhyw ddogfennau gwreiddiol.

## Os ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs byddwch:

t Cael Cymhorthdal Incwm, neu Gredyd Cynhwysol, Lwfans Cyflogaeth a Chymorth yn Seiliedig ar Incwm neu Gredyd Cynhwysol yn eich enw eich hun

**Dylech anfon un o'r rhain atom:**

- eich datganiad budd-daliadau presennol am y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2025; **neu**
- eich Hysbysiad Dyfarniad Credyd Treth am y cyfnod rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2025; **neu**
- eich Hysbysiad Dyfarniad Credyd Cynhwysol rhwng 6 Ebrill 2024 a 5 Ebrill 2025.

t Cyfrifoldeb am blentyn

**Dylech anfon un o'r rhain atom:**

- eich datganiad Budd-dal Plant diweddaraf; **neu**
- tystysgrif geni **wreiddiol** eich plentyn.

t Person ifanc sydd yn y ddalfa/mewn canolfan gadw o fewn y System Cyfiawnder Ieuenctid ar hyn o bryd

Gallai fod yn Sefydliad Troseddwyr Ifanc, Canolfan Hyfforddi Ddiogel a/neu Gartref Diogel i Blant.

**Dylech anfon un o'r rhain atom:**

- llythyr ar bapur pennawd gan eich gweithiwr allweddol sy'n:
  - cadarnhau hyd a lleoliad eich carchariad; **ac**
  - yn cadarnhau eich cenedligrwydd/manylion preswylio; **ac**
  - yn cadarnhau eich bod chi'n cydsynio y gall eich gweithiwr allweddol weithredu ar eich rhan at ddibenion y LCA; **a**
  - dylech chi a'ch gweithiwr allweddol lofnodi'r llythyr.

g

Byw dan ofal Awdurdod Lleol neu riant/rhieni maeth

Os ar unrhyw adeg o 14 oed hyd at ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf eich cwrs:

- nad ydych wedi bod yn byw dan ofal cyfreithlon eich rhieni am gyfanswm o 13 wythnos neu fwy; **neu**
- eich bod dan orchymyn gwarchodaeth arbennig, yng nghystodaeth neu ofal cyfreithiol, neu wedi derbyn llety gan Awdurdod Lleol am o leiaf 13 wythnos.

Os cawsoch eich dychwelyd i ofal cyfreithiol eich rhieni rhwng 14 ac 16 oed (cyn cychwyn eich cwrs), yna gellir eich ystyried yn rhywun sy'n gadael gofal o hyd.

t

**Dylech anfon y canlynol atom:**

Llythyr gan eich Awdurdod Lleol sy'n cadarnhau eich cyfeiriad presennol a'r ffaith eich bod yn byw dan ofal yr Awdurdod Lleol gyda rhieni maeth.

Rhaid i'r llythyr hwn fod ar bapur pennawd. Bydd angen iddo gael ei lofnodi a'i ddyddio gan swyddog awdurdodedig o'ch Awdurdod Lleol, a bydd angen iddo gynnwys stamp swyddogol.

g

Credaf y dylwn fod yn fyfyriwr annibynnol

Os ydych wedi cael eich cynghori i barhau fel myfyriwr dibynnol (h.y. rydych yn ddibynnol yn ariannol ar eich rhiant/gwarcheidwad) ond eich bod yn ystyried eich bod yn fyfyriwr annibynnol serch hynny – ffoniwch ni ar **0300 200 4050** i drafod eich sefyllfa.